Gwella'r Ysgolion

Rydyn ni wedi parhau i roi cymorth i bob ysgol yn Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni wedi gweithio'n effeithiol mewn amrywiaeth o feysydd megis adfer darllen, addysg materion camddefnyddio cyffuriau, cymorth ar faterion rhifedd, swyddogaeth ysgolion yn eu cymuned, datblygu consortiwm 16-19 oed, gwella trefniadau pontio a gwella canlyniadau ar gyfer Cymraeg yn ail-iaith.

Rydyn ni'n cael her a chefnogaeth am bris rhesymol o ganlyniad i'r bartneriaeth rhwng ein carfan gwella'r ysgolion a'r gwasanaeth ymgynghorol (ESIS) sydd yn cael ei rannu rhyngon ni a thri chyngor cyfagos. Mae hyn wedi golygu'n bod ni'n medru meithrin doniau'n disgyblion. Fyddai hyn ddim wedi bod yn bosibl petaen ni wedi gweithio ar ein pennau'n hunain.

Ymhlith ein llwyddiannau eleni mae:

- Cynllun Ysgolion Iach;
- Canlyniadau cadarnhaol yn sgîl rhaglen adolygu'r Gweithgor Archwilio o'r gefnogaeth ar gyfer gwella'r ysgolion
- Gwaith ymarferol gyda chynllun braenaru daearyddol ELWa a hwyluso'r adolygiad o addysg uwchradd
- Canlyniadau cadarnhaol parhaus yn sgîl yr adolygiad eilaidd
- Ail strwythuro trefnau cefnogaeth ar gyfer llywodraethu ysgolion a gwasanaethau cyswllt
- Cyflwyno rhaglen gymorth arloesol ym mhob ysgol ar gyfer addysg ar faterion camddefnyddio cyffuriau
- Rhagor o glystyrau o ysgolion yn ymuno â menter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (cynllun PESS) a chyflwyno menter 50x60
- Trefniadau llwyddiannus ynghylch penodi gweithwyr cymorth i bob clwstwr er mwyn datblygu swyddogaeth ysgolion yn eu cymuned
- Datblygu rhaglenni cymorth ar gyfer adfer darllen a chymorth ar faterion rhifedd

Mae'r partneriaethau hynod effeithiol hyn wedi creu datblygiadau trawsnewidiol yn Rhondda Cynon Taf, ac rydyn ni'n falch iawn o'r trawsnewid hwnnw.

SAFONAU

Yn 2006, roedd canlyniadau'r disgyblion unwaith eto'n dangos cynnydd parhaus yn ein hysgolion. Roedd tueddiadau cynnydd i'w gweld ym mhob Cyfnod Allweddol. Mae'r datganiadau canlynol i'r wasg yn dangos pa mor falch rydyn ni o lwyddiannau'n hysgolion ni.

Rhondda Cynon Taf – canlyniadau TGAU CBAC 2006

24 Awst 2006

Mae newyddion da i filoedd o ddisgyblion ar draws y Fwrdeistref Sirol a fydd yn cael gwybod canlyniadau'u harholiadau TGAU y bore yma.

Mae'r disgyblion ledled Rhondda Cynon Taf wedi cael y canlyniadau TGAU gorau erioed ar gyfer graddau A* - C, gyda 57.4% ohonyn nhw'n llwyddo i ennill y graddau hynny, sef cynnydd 2.8% o gymharu â chanlyniadau 2005.

Mae nifer sydd wedi cael graddau A*-G yn parhau'n uchel yn Rhondda Cynon Taf gyda thros 97% yn llwyddo yn 2006, sef cynnydd 0.3% o gymharu â chanlyniadau 2005.

Yn ogystal â hynny, mae un o bob saith o'r disgyblion yn Rhondda Cynon Taf wedi llwyddo i gael y graddau uchaf A* neu A.

Cafodd bron 23,000 o bobl ifainc eu cofrestru i sefyll arholiad TGAU CBAC y flwyddyn yma yn Rhondda Cynon Taf.

"Hoffwn i longyfarch y disgyblion i gyd – a'u hathrawon – sydd wedi gweithio'n galed i gael eu cymwysterau TGAU eleni. Pob hwyl iddyn nhw ar gyfer y dyfodol," meddai'r Cynghorydd Mike Forey, Aelod o'r Cabinet ar Faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes. "Er gwaetha'r cwymp bychan welon ni yn nifer y rhai a lwyddodd y llynedd, mae canlyniadau 2006 yn dangos bod y duedd o blaid cynnydd dros y tymor hir yn parhau yn Rhondda Cynon Taf."

Rhondda Cynon Taf – canlyniadau arholiadau safon 'Uwch' / 'Uwch Gyfrannol' 2006

17eg Awst 2006

Mae penllanw gwaith caled cannoedd o ddisgyblion ledled Rhondda Cynon Taf wedi cyrraedd unwaith eto wrth i ganlyniadau safon 'Uwch' / Uwch Gyfrannol gael eu cyhoeddi ar gyfer y flwyddyn academaidd yma.

Eleni, safodd ragor fyth o ddisgyblion Rhondda Cynon Taf arholiad safon 'A' nag erioed o'r blaen - dros 4300 o ddisgyblion i gyd.

Llwyddodd dros 70% o'r disgyblion i gael graddau A – C yn Safon Uwch ac ar y cyfan, mae 97.1% o ddisgyblion Rhondda Cynon Taf wedi llwyddo yn eu harholiadau, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Roedd un o bob pum canlyniad llwyddiannus yn radd 'A.'

Ar y cyfan roedd nifer y disgyblion sy wedi llwyddo yn eu Harholiadau Uwch Gyfrannol yn Rhondda Cynon Taf yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Roedd cynnydd mewn canran o raddau A o gymharu â chanlyniadau 2005 yn ogystal.

"Ar y cyfan, mae nifer y disgyblion sy'n llwyddo wedi cynyddu dros y degawd diwethaf ac mae rhagor yn llwyddo i gyrraedd y graddau gorau," meddai'r Cynghorydd Mike Forey, Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes. "Rydw i wrth fy modd â chyraeddiadau disgyblion Rhondda Cynon Taf eleni. O ystyried y canlyniadau, mae eu gwaith caled a'u hymroddiad yn amlwg.

"Llongyfarchiadau i'r disgyblion ac i'r athrawon sy wedi gweithio mor galed eleni i gael y canlyniadau gwell yma," ychwanegodd Steve Lamb, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cynnal a Gwella'r Ysgolion. "Pob dymuniad da i'r disgyblion yma ar gyfer y dyfodol, p'un ai ddewis dilyn llwybr addysg bellach neu gychwyn ar eu gyrfaoedd."

Llongyfarchodd Jane Davidson, Aelod o'r Cynulliad dros Gylch Pontypridd, ysgolion, disgyblion a rhieni Rhondda Cynon Taf am ganlyniadau Safon A ardderchog, gan ddweud:

"Mae Cymru'n llawn o ddathliadau heddiw ac mae'r canlyniadau yma'n newyddion ardderchog i Rondda Cynon Taf. Roeddwn i wrth fy modd i glywed bod 97.1% o'n disgyblion lleol a safodd arholiadau safon 'A' wedi llwyddo. Er canlyniadau RhCT eu hunain yn rheswm i ddathlu, dylen ni eu dathlu nhw mwy gan eu bod nhw'n uwch na chanlyniadau Cenedlaethol Cymru. Roeddwn i falch dros ben i glywed hefyd bod y ganran o'r disgyblion sydd wedi llwyddo i gael gradd 'A' wedi cynyddu o 0.8%. Rydw i'n rhoi fy llongyfarchiadau i bawb sydd wedi chwarae rhan yn y llwyddiant am eu cyraeddiadau bendigedig. Yn bersonol, hoffwn i ganmol gwaith caled y disgyblion hynny, yn ogystal â gwaith galed yr ysgolion a'r rhieni sydd wedi dioddef am amser hir."

ARLOESI

Mae nifer o fentrau newydd wedi'u cyflwyno eleni, weithiau ar y cyd â phartneriaethau eraill, ond bob tro gyda brwdfrydedd ein swyddogion ar faterion gwella'r ysgolion, cynghorwyr ac athrawon. Rydyn ni'n clodfori'r rhain am yr effaith maen nhw wedi'i chael ar ddatblygiad ein plant a'n pobl ifainc wrth iddyn nhw geisio cyrraedd eu llawn dwf.

Mae'r mentrau hyn yn cynnwys:

- 'Dyfal Donc!' – rhaglen adfer safonau darllen wedi'i datblygu gan Brifysgol Rhydychen sy'n cael ei hariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chymhorthdal Ymyriad Strategol oddi wrth yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Mae'r rhaglen yn ei phumed flwyddyn ac mae wedi cael ei gweithredu mewn 101 o ysgolion. Mae'r prosiect wedi'i anelu at Blant Cyfnodau Allweddol 1 a 2 sydd ddim yn gallu darllen yn hyderus. Mae safon darllen wedi gwella'n fawr, ac yn parhau i wella o ganlyniad i'r hyfforddiant a dderbyniodd y cynorthwywyr cymorth a'r athrawon. Mae oed darllen y plant fel arfer yn cynyddu o hyd at ddwy flynedd ond mae'r cynllun hefyd yn gwella'u hyder a'u hymroddiad nhw.

- Yn ystod 2006/07 mae rhaglen sy'n ymdrin â rhifedd o'r enw 'Spotlight' wedi cael ei chyflwyno mewn 60 o ysgolion. Dyma raglen i helpu plant sydd ddim yn deall mathemateg yn llwyr. Adran Addysg a Sgiliau (DfES) a ddatblygodd y rhaglen dan nawdd Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Bydd Athrawon a Chynorthwywyr Dysgu yn mynd i gyfres o achlysuron hyfforddi dros y flwyddyn er mwyn gwella'r modd y mae Mathemateg yn cael ei dysgu yn rhan o'r prosiect ac yn ôl yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r prosiect yn anelu at blant y brif ffrwd a chanddyn nhw ddim hyder yn eu medrau mathemateg. Mae'r prosiect wedi'i seilio ar ddatblygu dulliau ymarferol a meddyliol ac ar y defnydd o amrywiaeth o eirfa fathemategol. Roedd canlyniadau'r rhaglen arbrofol yn 05/06 yn aruthrol ac rydw i'n siŵr y bydd y prosiect mwy yma yr un mor llwyddiannus.

- Mae strwythur carfan Sort Orau wedi newid eleni er mwyn cynyddu'i maint. Bydd dau Swyddog Cymorth Addysg yn ymuno â'r garfan ym mis Tachwedd. Bydd cynyddu ei maint yn caniatáu i garfan Sort Orau roi ei hadnoddau i feysydd wedi'u pennu'n strategol, megis dod â rhieni yn rhan ohoni, ysgolion arbennig a phobl ifainc mae'n anodd cysylltu â nhw.

  Mae cyfnod gweithredu Prosiect Pontio Sort Orau wedi dod i ben flwyddyn lawn yn gynt na'r disgwyl. Mae ymroddiad a brwdfrydedd y staff wedi galluogi cynllun Sort Orau i ymateb â momentwm a gafodd ei greu gan y sector cynradd, ac ar hyn o bryd rydyn ni'n ceisio gwerthuso'r cyfnod gweithredu yma. Bydd cyflwyno cynllun SAFF ledled RhCT eleni'n gymorth i gyfnod cynnal y Prosiect Pontio gan fod

gwersi Prosiect Pontio Sort Orau wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun SAFF. Mae carfan Sort Orau yn disgwyl y bydd cymorth ar gael i flwyddyn 6 y sector cynradd yn gyson ag anghenion yr ysgolion unigol. Bydd yr ysgolion i gyd yn parhau i dderbyn y cymorth maen nhw'n gofyn amdano. Mae carfan Sort Orau wedi hyfforddi 30 o Swyddogion Cynllun SAFF newydd a bydd y garfan yn eu harsylwi wrth iddyn nhw weithredu cynllun SAFF ledled RhCT. Bydd hynny'n caniatáu i Garfan Sort Orau fonitro darpariaeth a chysondeb cynllun SAFF, cynnig cefnogaeth i ysgolion a swyddogion yn ogystal â monitro nifer y bobl sy'n ymuno â fe. Mae ffolderau cynllun SAFF wedi cael eu cynhyrchu ac maen nhw wedi cael eu dosbarthu ymhlith ysgolion cynradd. Mae'r ffolderau yma'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol am gynllun SAFF, trefn a strwythur achlysur dathlu Cynllun SAFF a dolennau cyswllt defnyddiol.

Rydyn ni bob amser yn gwerthuso gwasanaethau er mwyn gofalu ein bod ni'n cyrraedd ein targedau a'r mynegyddion cyflawni a gafodd eu nodi yng Nghynllun Gweithredu RhCT ar faterion Camddefnyddio Cyffuriau. Ar hyn o bryd mae rhaglen ystadegau SPSS yn cael ei defnyddio i weld faint o wybodaeth a medrau mae defnyddwyr y cynllun yn eu hennill ac i weld os yw eu hyder yn tyfu.

Partneriaeth Fframwaith sydd wedi comisiynu cynllun Sort Orau. Y nod yma yw gwneud gwaith ymchwil ar y sefyllfa bresennol parthed bwlio yn RhCT. Mae sesiynau ymgynghori gyda rhieni, pobl ifainc, staff yr ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill wedi cael eu cynnal trwy ddull cyfarfodydd wyneb i wyneb, cyfweliadau a chylchoedd trafod. Mae adroddiad wedi cael ei baratoi a bydd e'n cael ei ddosbarthu yn ein Cynhadledd Wrth-Fwlio i'w chynnal ym mis Tachwedd 2006. Mae cysylltiadau wedi cael eu sefydlu gyda phartneriaid posibl gan gynnwys VALREC, Stonewall, NSPCC, NCH a Phlant yng Nghymru. Bydd Jane Davidson, Aelod o'r Cynulliad, yn areithio yn y gynhadledd. I gael rhagor o wybodaeth am Sort Orau, galwch heibio i: www.getsortedwales.co.uk

- Mae RhCT yn un o 6 o gynlluniau Braenaru Daearyddol yng Nghymru. Mae pum consortiwm yn gweithio tuag at adeiledd cynghreiriol, yn creu dewis ehangach a llwybrau newydd i ddysgwyr

- Bydd sefydlu 'canolfannau lloeren galwedigaethol' ym mhob consortiwm yn rhoi rhagor o ddewisiadau galwedigaethol lefel 1 i fyfyrwyr. Mae meysydd sydd wedi cael eu datblygu hyd yn hyn yn cynnwys: Adeiladu, Busnes, Maes Gofal, Arlwyo a Harddwch a thrin gwallt. Mae'n debygol y bydd rhagor o ddatblygiadau'n cynnwys Gofal i Gwsmeriaid, Busnes a Manwerthu, a bydd y pethau hynny'n cael eu datblygu yn 2007 mewn partneriaeth â Choleg Morgannwg ac Uned Datblygu'r Economi Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT

- Mae camau bras wedi cael eu cymryd er mwyn gwneud y defnydd o Rwydweithiau Dysgu Rhithwir yn fwy eang. Er mwyn cefnogi hynny

bydd 8 o ysgolion a'r coleg yn creu pecynnau dysgu cymysg. Bydd Prifysgol Morgannwg yn rhoi cymorth iddyn nhw mewn 10 pwnc y tymor yma. Bydd y pecynnau hynny'n rhoi gymorth i ddysgu'n annibynnol, a bydd modd eu defnyddio nhw dros y rhwydwaith

- Mae nifer o ddisgyblion sy'n rhan o Wobrwyo Dug Caeredin yn parhau i gynyddu. Yn 2005 roedd gan RhCT y cynydd mwyaf mewn nifer o ddefnyddwyr newydd ledled Cymru.

- Cafodd cyfres o gynlluniau arbrofol ar gyfer gwella Dysgu ac Addysgu mewn Ysgolion Uwchradd eu cynnal ar ddechrau 2006. Ffocws y rheiny oedd datblygu ymarfer dysgu ac addysgu newydd yn yr ystafell ddosbarth. Gwnaeth Ysgol Gyfun Glynrhedynog, Ysgol Hen Felin, Ysgol Gyfun Tonyrefail, Ysgol Gyfun Tonypandy ac Ysgol Gyfun Treorci waith arbennig o arloesol. Bydd Carfan Gwella'r Ysgolion yn rhoi sylw i'r ysgolion yma dros y chwe mis nesaf

- Sioned Cox o Ysgol Gyfun Cymer oedd disgybl RhCT/Griffin Mill y flwyddyn ar gyfer 2006. Enillodd Sioned, sy'n astudio Meddygaeth yn Southampton ar hyn o bryd, Peugeot 207 newydd am y flwyddyn.

- Cyhoeddwyd datblygiadau cyffrous yn narpariaeth Gymraeg ysgolion cyfrwng Saesneg yr ardal yn ystod 2004/05. O ganlyniad i bartneriaeth rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, cafodd menter trochi'i sefydlu yn ysgolion ardal Porth Rhondda. Sefydlwyd menter ddwyieithog yn ardal Bryncelynnog. Mae'r fenter yn debyg i un sydd yn ardal Treorci yn barod. Tan nawr, dim ond yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg roedd y cyfle i ddatblygu'n ieithyddol. Rydyn ni wedi sylweddoli erbyn hyn bod modd cefnogi ieithoedd tramor modern hefyd. Rydyn ni'n bwriadu rhoi sylw i'r maes yma yn y dyfodol agos.

- Rydyn ni wedi sefydlu menter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (AGChY) mewn pump o'n hysgolion uwchradd ni a'u hysgolion cyswllt nhw. Mae'r fenter yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bwriad mentrau fel hyn yw codi safon addysg gorfforol ac i ddarparu cyfle i bobl ifainc i ymuno mewn gwahanol fathau o ymarfer corff. Rydyn ni'n rhoi hyfforddiant i athrawon er mwyn iddyn nhw allu datblygu'n broffesyddol i gyrraedd y nod yma. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill (datblygu chwaraeon, Campau'r Ddraig, menter 5 x 60) i hybu clybiau gweithgareddau corfforol tu allan i'r ysgol (exit routes). Yn ogystal â gwneud ymarfer corff, rydyn ni'n hyrwyddo pwysigrwydd deiet iach. Mae modd ichi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag AGChY ar y wefan, sef: http://www.rctednet.net/schoolsupport/schoolsupport_pess.asp

- Mae'r bartneriaeth yn parhau gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac mae nifer y disgyblion sy'n chwarae offerynnau pres wedi cynyddu ar draws y sir o ganlyniad i'r bartneriaeth arbennig yma. Mae'r plant a'r

bobl ifainc yn awyddus iawn i fanteisio ar y cyfle i ddysgu chwarae offerynnau pres yn ogystal â'r offerynnau eraill sy'n cael eu cynnig.

- Rydyn ni'n darparu rhagor o weithgareddau tu hwnt i oriau ysgol gan sefydlu Band Jazz, ensemble gitarau, Côr Ieuenctid a Chlwb Ilinynnau ar gyfer dechreuwyr. Mae hynny wedi bod yn bosibl diolch i'r defnydd o gyfleusterau newydd Prifysgol Morgannwg.

Lles

Ym mis Ionawr 2006 daeth carfan Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd yn gyfrifol am Wasanaeth Lles Addysg.

Nod y gwasanaeth hwn yw gwella'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion a'u teuluoedd. Er mwyn gwneud hynny byddwn ni'n ategu'r gwaith a gafodd ei ddechrau yn y flwyddyn academaidd ddiweddaf gan roi'r cyfle i ddisgyblion a'u teuluoedd yn y sector cynradd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o strategaethau gyda'r bwriad o wella presenoldeb mewn ysgolion. Bydd y strategaethau yma'n cynnwys cyfres o anerchiadau yng Ngwasanaeth y bore ac yn yr ystafelloedd ddosbarth ar faterion triwantiaeth a'r pwysigrwydd o fynd i ysgol yn rheolaidd. Yn ogystal, byddwn ni'n cynnal gweithdai "Meithrin Perthnasau Diogel" mewn rhagor o ysgolion cynradd a byddwn ni'n parhau i roi cymorth i waith Partneriaeth materion Cymunedau Diogel trwy achlysuron "criw craff" blynyddol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi tipyn bach o arian inni a byddwn ni'n ei ddefnyddio i hyfforddi staff i roi cymorth i rieni. Byddwn ni'n gwneud hynny trwy sefydlu cylchoedd trafod sydd yn meithrin medrau bod yn rhiant. Bydd y cylchoedd trafod yma'n cael eu hanelu at y rhieni hynny mae'u plant yn peri pryder inni oherwydd nad ydyn nhw'n mynychu'r ysgol yn ddigon rheolaidd. Byddwn ni'n dechrau gyda un grŵp sy'n dod o ardal ysgol gymuned arbrofol sydd wedi'i dewis. Bydd ein gwaith yn cael ei anelu at ddisgyblion yr ysgolion cynradd yn y grŵp clwstwr. Dyma fesur ataliol arbrofol a fydd yn annog teuluoedd i ddefnyddio arferion da o oedran cyn gynted â phosibl. Os bydd hynny'n effeithiol, rydyn ni'n bwriadu dechrau gweithio gyda rhieni mewn ardaloedd eraill cyn bo hir.

Mae pecyn cyfrifiadurol i fonitro presenoldeb yn cael ei arbrofi mewn nifer dethol o ysgolion cynradd. Os bydd e'n llwyddiannus, bydd e'n cael ei ddefnyddio ym mhob ysgol. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n noddi'r fenter yma'n rhannol. Yn rhan o'r fenter mae adran GLIA ac adran SIMS yn gweithio'n agos gyda'i gilydd.

Un o brif resymau pam dydy plant ddim yn mynd i ysgol yw bwlio. Mae adran GLIA yn cael ei chomisiynu i wneud gwaith tymor byr er mwyn helpu ysgolion i ddatblygu'u strategaethau gwrth-fwlio effeithiol a rhagweithiol sy'n ystyried arweiniad a gofynion y cylchlythyr "Parch tuag at Eraill".

Os bydd Swyddogion Addysg Lles yn dod ar draws materion cymhleth tra byddan nhw'n gweithio â disgyblion yn y sector uwchradd bydd gweithwyr maes addysg a maes cymdeithasol yn parhau i weithio'n agos gyda'r

teuluoedd hynny. Cafodd y gwasanaeth tua 7600 o atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn academaidd 2005-06. Datgelodd y sector cynradd eto fod pryderon ynghylch presenoldeb yn dal i gynyddu'n raddol.